




Helpu plant a phobl ifanc

Llyfryn a ffurflen i rieni a cyfeillion achos



Cysylltwch â ni yn TAAAC os oes gennych unrhyw gwestiynau ar ôl i chi ddarllen y llyfryn hwn:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.



Llinell
Gymorth:
0300 025 9800



Ebost:
tribunalenquiries
@cymru.gsi.gov.
uk



Gwefan:
[www.taaac.llyw.
cymru](http://www.taaac.llyw.cymru)



Post:
TAAAC Adeiliadau
Llywodraeth
LD1 5HA

Y llyfryn hwn

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i rieni a cyfeillion achos sydd yn helpu plant a phobl ifanc sydd eisiau gwneud apêl anghenion addysgol arbennig neu hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC.

About TAAAC

Tribiwnlys ydy TAAAC. Mae hyn yn golygu ein bod yn annibynnol oddi wrth y llywodraeth ac awdurdodau lleol a bod ein penderfyniadau yn gyfreithiol rhwymedig.

Yn TAAAC rydym yn gwrandao ac yn gwneud penderfyniadau am:

- apeliadau anghenion addysgol arbennig yn erbyn rhai penderfyniadau a wneir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru; a
- hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion yng Nghymru.

Dylech gysylltu â TAAAC os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut i wneud apêl neu hawliad neu os oes unrhyw beth yn aneglur am y broses. Ond ni allwn roi cyngor cyfreithiol na help i baratoi apêl neu hawliad.

Hawliau plant a phobl ifanc

Mae gan blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru yr hawl i:

- apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wnaed gan eu hawdurdod lleol am eu hanghenion addysgol arbennig,
- ddwyn achos am wahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion yng Nghymru.

Mae hawliau apêl a hawliad yn union yr un fath â'r rhai sydd eisoes yn bodoli i rieni. Nid yw hawl rhieni i wneud apêl neu hawliad yn cael ei effeithio, ond mae'n golygu bod gan blant bellach yr un hawliau â'u rhieni i wneud eu hapêl neu eu hawliad eu hunain.

Mae'r gyfraith yn cydnabod na fydd pob plentyn yn teimlo'n ddigon hyderys i wneud apêl neu hawliad. Mewn sefyllfa o'r fath gall cyfaill achos weithredu ar ran plentyn i wneud apêl neu hawliad i ni yn TAAAC.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthy ch am:

Pwy sydd yn gallu bod yn gyfaill achos?	3
Beth ydy dyletswyddau cyfaill achos?	3
Beth y mae cyfaill achos yn ei wneud?	3
Beth ydy'r cyfyngiadau ar bobl sydd yn gweithredu fel cyfaill achos?	4
Beth ydy datganiad o addasrwydd?	4
Beth fydd TAAAC yn ei wneud gyda'r tystysgrif datgeliad manylach?	5
Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am benodi neu gael gwared ar cyfaill achos?	5
Ydy'r hawliau newydd i blant yn effeithio ar hawliau rhieni?	6
Pa help sydd ar gael i gyfaill achos?	7
Ydy'r broses o wneud apêl neu hawliad yn wahanol i gyfaill achos?	7
Ydy'r broses o wneud apêl neu hawliad yn wahanol i blant sydd yn gwneud eu hapêl eu hunain?	7
Pa wybodaeth y mae TAAAC wedi'i chynhyrchu i blant a phobl ifanc?	8
Ydy cyfeillion achos yn gallu llofnodi ffurflen apêl neu hawliad ar ran y plentyn?	8
Rwy'n riant sydd yn gwneud apêl neu hawliad. Ydw i yn gallu bod yn gyfaill achos i'm plentyn hefyd?	9
Oes angen i'r person sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos gael caniatad rhieni i wneud hynny?	9
Ydy'r plentyn angen caniatad ei riant i wneud apêl neu hawliad?	9
Rwyf eisiau gweithredu fel cyfaill achos. Sut ydw i'n rhoi gwybod i chi?	10
Beth ydy'r broses ar gyfer gwneud apêl neu hawliad?	10
Beth ydy'r terfynau amser ar gyfer gwneud apêl neu hawliad?	10
Lle mae modd cael rhagor o wybodaeth a chyngor?	10
Ffurflen datganiad cyfaill achos – rhetsr wirio.	12
Ffurflen datganiad cyfaill achos.	12

Pwy sydd yn gallu bod yn gyfaill achos?

Cyfaill achos fydd rhywun sydd yn:

- adnabod y plentyn yn dda,
- deall anghenion y plentyn,
- gwrandao a chynrychioli dymuniadau a barn y plentyn.

Gallai, er enghraifft, fod yn rhiant neu tad-cu/mam-gu, brawd neu chwaer neu athro/athrawes yn yr ysgol.

I rai plant, sydd yn derbyn gofal oddi cartref, gall fod yn ofalwr maeth neu weithiwr cydmeithasol.

Beth ydy dyletswyddau cyfaill achos?

Mae'r **gyfraith** yn dweud bod rhaid i gyfaill achos plentyn:

- wneud cynrychioliadau ac ymarfer hawliau yn deg ac yn fedrus,
- peidio â chael unrhyw fuddiant sydd yn groes i fuddiant y plentyn,
- sicrhau bod pob cam a phenderfyniad a wneir gan y cyfaill achos er budd y plentyn a chymryd barn y plentyn i ystyriaeth.

Beth mae cyfaill achos yn ei wneud?

Bydd cyfaill achos yn helpu a chefnogi plentyn mewn sawl ffordd, trwy:

- osgoi neu ddatrys anghydfodau gyda'r awdurdod lleol ac/neu gorff cyfrifol gan ddefnyddio trefniadau datrys anghydfodau,
- trafod gyda'r plentyn i wneud apêl neu hawliad ai peidio,
- cwblhau cais apêl neu hawliad a'i anfon at TAAAC,
- derbyn gwybodaeth am yr apêl neu'r hawliad,
- paratoi datganiad achos a'i anfon at TAAAC,
- sicrhau bod dymuniadau a barn y plentyn yn cael eu cynrychioli yn y gwrandawriad,
- cynghori'r plentyn ar ddatblygiad a chanlyniad apêl neu hawliad.

Beth ydy'r cyfyngiadau ar bobl yn gweithredu fel cyfeillion achos?

Dywed y gyfraith y gall person ddod yn gyfaill achos **dim ond** os

- nad ydy'r person wedi'i atal rhag gweithgaredd rheoleiddiedig yn berthynol i blant oddi mewn i ystyr ¹**Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006**.

Rhaid i berson sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos gyflwyno **datganiad o addasrwydd** i TAAAC.

Beth ydy datganiad o addasrwydd?

- Tystiolaeth ydy datganad o addasrwydd person i weithredu fel cyfaill achos
- Rhaid i berson sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos lenwi'r ffurflen Datganiad o Addasrwydd yng nghefn y llyfryn hwn a'i hanfon at TAAAC.
- Cysylltwch â TAAAC os ydych angen copi o ffurflen datganiad cyfaill achos. Gellir lawr lwytho copi hefyd o wefan TAAAC.
- Rhaid anfon y ddogfennaeth ganlynol gyda datganiad o addasrwydd wedi'i gwblhau

Os nad ydych yn rhiant,

- barn rhiant y plentyn yng nhyllch â dymuniad y person i fod yn gyfaill achos plentyn, NEU
- esboniad o pam nad ydy'r person wedi gofyn barn rhiant y plentyn.

Os nad ydy'r person sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos yn berthynas agos i'r plentyn,

- tystysgrif datgeliad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cadarnhau addasrwydd y person i weithio gyda phlant.

(Mae rheoliadau'r Tribiwnlys yn datgan mai perthynas agos i'r plentyn ydy rhiant y plentyn, llys riant, brawd, llys frawd, chwaer, llys chwaer, tad-cu/mam-gu, ewythr, modryb, nai neu nith.)

¹ O dan **Pennod 47**, adran **3(2)(a)** o **Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006**, mae person wedi'i atal rhag gweithgareddau rheoleiddiedig mewn perthynas â phlant os ydy enw'r person yn y rhestr yn Rhan 1 o Atodlen 3 o'r Ddeddf honno('rhestr waharddedig plant'))

- Os ydy'r person sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos yn berthynas agos i'r plentyn gellir cynnwys tystiolaeth gyda'r datganiad o addasrwydd i gefnogi'r addasrwydd i weithredu fel cyfaill achos.
- Rhaid i'r person sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn anfon copi wedi'i gwblhau a'i lofnodi o ffurflen datganiad cyfaill achos at:
 - rhiant y plentyn
 - pob person/corff sydd yn rhan o'r apêl/hawliad
- Bydd angen i unrhyw berson sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos plentyn gyflwyno ffrufen datganiad o addasrwydd a'r ddogfennaeth angenrheidiol i TAAAC.

Beth fydd TAAAC yn ei wneud gyda'r tystysgrif datgeliad manylach?

Os ydych eisiau gweithredu fel cyfaill achos ac os nad ydych yn berthynas agos i'r plentyn fel y disgrifir yn y paragraff uchod. 'Beth ydy datganiad o addasrwydd?' rhaid i chi amgau tystysgrif datgeliad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol gyda'ch ffurflen datganiad cyfaill achos.

Bydd TAAAC yn cadw cofnod o rif tystysgrifau datgeliad a'r dyddiadau cychwyn a gorffen. Yna caiff tystysgrifau eu hanfon yn ôl trwy ddanfoniad cofrestrefig.

Beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud am benodi neu gael gwared ar gyfeillion achos?

Penodi cyfaill achos

Mewn rhai amgylchiadau gall y tribiwnlys gyfarwyddo plentyn i benodi cyfaill achos.

Gellir gwneud hyn mewn achosion lle mae plentyn wedi gwneud apêl neu hawliad ond lle mae'r tribiwnlys yn darganfod nad oes ganddo/i ddigon o ddealltwriaeth i fynd ymlaen heb gyfaill achos.

Cael gwared a cyfaill achos

Gall y tribiwnlys gyfarwyddo na ddylai person weithredu fel cyfaill achos mewn sefyllfaoedd lle mae'n darganfod:

- nad ydy'r person yn cwrdd â'r gofyniojn a nodir yn y paragraff uchod, 'Beth ydy'r cyfyngiadau ar bobl yn gweithredu fel cyfeillion achos?',

- nad ydy'r person yn bodloni'r gofyniad a nodir yn y paragraff, 'Beth ydy dyletswyddau cyfaill achos?',
- mae rheswm da arall dros gael gwared ar y cyfaill achos.

Ydy'r hawliau newydd i blant yn effeithio ar hawliau rhieni?

Ni fydd hawliau presennol rhieni i wneud apêl neu hawliad yn cael eu heffeithio gan yr hawliau newydd i blant.

Gall rhieni ddal i wneud apêl neu hawliad os ydy eu plentyn yn gwneud un ai peidio. Lle mae rhiant yn gwneud apêl neu hawliad gall fod am yr un rhesymau neu am resymau gwahanol i'r rhai a wneir gan eu plentyn.

Ond mae'r ddeddf newydd fodd bynnag yn cyflwyno rhai newidiadau i'r trefniadau i wneud apêl neu hawliad, sef:

- rhaid i Awdurdodau Lleol hysbysu plant yn ogystal â'u rhieni pan fydd ganddynt hawl i apelio i TAAAC,
- rhaid i Awdurdodau Lleol roi gwybodaeth a chyngor i blant, eu cyfaill achos os oes ganddynt un, yn ogystal â rhieni, am:

Anghenion addysgol arbennig

Gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion

Gall **gwybodaeth a chyngor** gynnwys materion fel mynediad a defnydd o **wasanaethau datrys anghydfodau** a mynediad a defnydd o **wasanaethau eiriolaeth annibynnol** i blant.

- Gall plant wneud apêl neu hawliad eu hunain **neu** gyda help cyfaill achos
- Gall rhiant plentyn weithredu fel cyfaill achos hyd yn oed os ydy'r rhiant wedi gwneud apêl neu hawliad eu hunain.

Pa help sydd ar gael i gyfaill achos?

Rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor i gyfeillion achos am:

- anghenion addysgol arbennig,
- gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

Gall gwybodaeth a chyngor gynnwys materion fel gwasanaethau datrys anghydfodau a sut i gael gafael ar y gwasanaeth a gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a sut i gael gafael ar y gwasanaeth.

Gall yr Awdurdod Lleol hefyd roi'r cyfaill achos mewn cysylltiad â chefnogwr neu gynrychiolydd annibynnol all helpu gyda'r apêl neu'r hawliad.

Gall fod cyllid cymorth cyfreithiol ar gael i blentyn. Os ydy hynny'n wir, bydd angen gwneud cais am gymorth cyfreithiol. Gall cymdeithas y gyfraith neu gyngor ar bopeth lleol roi enwau cyfreithwyr sydd yn rhedeg y cynllun cymorth cyfreithiol. Yna efallai y bydd y cyfaill achos yn gallu cael cyfarfod gyda chyfreithiwr i ofyn am gyngor i baratoi apêl neu hawliad ar ran y plentyn.

Ydy'r broses o wneud apêl neu hawliad yn wahanol i gyfaill achos?

Nac ydy. Mae'r broses ar gyfer gwneud apêl neu hawliad yr un fath â'r un ar gyfer rhieni. Ym mhob achos, rhaid llenwi ffurflen gais apêl neu hawliad a'i hanfon at TAAAC.

Ond rhaid i gyfeillion achos lenwi a dychwelyd y ffurflen 'Cyfaill achos, datganiad o addasrwydd' (SEN/DIS CYP4). Mae copi o'r ffurflen hon yn amgaeedig gyda'r llyfryn hwn. Mae copïau ychwanegol ar gael gan TAAAC a gellir ei lawr lwytho o'n gwefan.

Ydy'r broses o wneud apêl yn wahanol i blant sydd yn gwneud eu hapêl eu hunain?

Yr unig wahaniaethau ydy:

- mae plant a phobl ifanc yn gallu cael cyfaill achos i wneud apêl neu hawliad ar eu rhan
- mae plant a phobl ifanc yn gallu rhoi enw a chyfeiriad eu cyfaill achos i ni, os oes ganddynt un, trwy lenwi ac anfon y ffurflen 'Dweud wrthym ni os oes gennych cyfaill achos' (SEN CYP 2) atom. Yna byddwn yn anfon cais apêl a'r holl wybodaeth am yr apêl at y cyfaill achos

Ar wahân i hynny mae'r broses ar gyfer gwneud apêl neu hawliad yn union yr un fath ag ar gyfer rhiant. Ym mhob achos rhaid llenwi a chyflwyno cais apêl neu hawliad i TAAAC.

Pa wybodaeth y mae TAAAC wedi'i chynhyrchu i blant a phobl ifanc?

Rydym wedi cynhyrchu **pecyn gwybodaeth i blant, rhieni a cyfeillion achos**.

Mae'r pecyn gwybodaeth yn cynnwys y cyhoeddiadau a'r ffurflenni canlynol a fydd gobeithio yn ddefnyddiol i **bob** plentyn sydd yn rhan o apêl neu hawliad:

- Beth ydy apêl, **llyfryn** i blant a phobl ifanc (SEN CYP 1),
- Dweud wrthyn ni os oes gennych gyfaill achos, **ffurflen** y gall plant a phobl ifanc ei defnyddio i roi enw a chyfeiriad eu cyfaill achos, os oes ganddynt un (SEN CYP 2) ,
- Helpu plant a phobl ifanc, **llyfryn** i rhieni a cyfeillion achos sydd yn helpu plant a phobl ifanc i wneud apêl neu hawliad (SEN/DIS CYP 3),
- **Ffurflen** Cyfaill achos, datganiad o addasrwydd, rhaid i unrhyw un sydd yn dymuno bod yn gyfaill achos lenwi'r ffurflen hon (SEN/DIS CYP 4),
- Mynd i wrandawriad tribiwnlys, **llyfryn** i blant a phobl ifanc (SEN/DIS CYP 5),
- Beth ydy hawliad, **llyfryn** i blant a phobl ifanc (DIS CYP 1),
- Dweud wrthyn ni os oes gennych gyfaill achos, **ffurflen** y gall plant a phobl ifanc ei defnyddio i roi enw a chyfeiriad eu cyfaill achos i ni, os oes ganddynt un. (DIS CYP 2),
- Mynd i wrandawriad tribiwnlys, **DVD** i blant, rhieni a cyfaill achos a phobl ifanc

Cysylltwch â ni yn TAAAC i ofyn am becyn gwybodaeth.

Ydy cyfeillion achos yn gallu lofnodi ffurflen apêl neu hawliad ar ran y plentyn?

Ydy, gall cyfeillion achos lofnodi ffurflen apêl ar ran y plentyn.

Rwy'n riant sydd yn gwneud apêl neu hawliad. Ydw i yn gallu bod yn gyfaill achos i'm plentyn hefyd?

Ydych. Gall riant sydd yn gwneud apêl fod yn gyfaill achos i'w plentyn hefyd.

Rhaid i unrhyw un sydd yn gweithredu fel cyfaill achos lenwi'r ffurflen 'Cyfaill achos, datganiad o addasrwydd (SENTW 26).

Oes angen i'r person sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos gael caniatad rhieni i wneud hynny

Os nad oes gennych 'gyfrifoldeb rhiant' dros y plentyn dylech ofyn am gefnogaeth a barn rhywun sydd â chyfrifoldeb e.e. rhiant, i weithredu fel cyfaill achos.

Mae angen i gyfeillion achos gyflwyno ffurflen 'Cyfaill achos, datganiad o addasrwydd' (SEN/DIS CYP 4). Rhaid i'r datganiad gynnwys barn rhiant y plentyn mewn perthynas â'r personau sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn neu esboniad pam nad yw'r person wedi sefydlu barn rhiant y plentyn.

Rhaid i chi roi gwybod i ni os oes rheswm da pam nad ydych wedi gofyn am farn y rhiant.

Rhaid i'r person sydd yn dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn anfon copi o'r ffurflen datganiad o addasrwydd wedi'i llenwi at riant y plentyn ac at unrhyw un arall neu unrhyw gorff arall sydd yn rhan o'r apêl. Fel rheol yr Awdurdod Lleol neu Gorff Cyfrifol yr ysgol fydd y rhain.

Ydy'r plentyn angen caniatad ei riant i wneud apêl neu hawliad?

Nac ydy, dydy plentyn ddim angen caniatad rhiant i wneud apêl neu hawliad. Byddwn yn gofyn i'r plentyn neu ei cyfaill achos, os oes ganddynt un, roi gwybod i ni beth ydy barn eu rhiant am yr apêl neu'r hawliad.

Yn yr un modd, lle mae rhiant wedi gwneud apêl neu hawliad bydd angen iddyn nhw roi gwybod i ni beth ydy barn y plentyn ar yr apêl neu'r hawliad.

Rwyf eisiau gweithredu fel cyfaill achos. Sut ydw i'n rhoi gwybod i chi?

Os ydych yn gwneud apêl neu hawliad ar ran plentyn bydd angen i chi gofrestru hynny gyda ni yn TAAAC. Gallwch wneud hynny trwy lenwi ffurflen 'Cyfaill achos, datganiad o addasrwydd' (SENTW 26). Mae angen i chi lenwi'r ffurflen hon hyd yn oed os ydych yn rhiant yn gweithredu fel cyfaill achos i'ch plentyn. Mae'r ffurflen yn amgaaedig gyda'r daflen hon neu gallwch lawr lwytho copi o'n gwefan neu cael copi trwy gysylltu â ni yn TAAAC.

Beth ydy'r broses ar gyfer gwneud apêl neu hawliad?

Mae'r broses ar gyfer gwneud apêl neu hawliad yr un fath i rieni, plant a phobl ifanc a cyfeillion achos. I wneud apêl neu hawliad rhaid llenwi ac anfon y ffurflenni canlynol atom ni yn TAAAC:

- Apeliadau AAA: **Cais apêl**,
- Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd: **Cais hawliad**

Yn ychwanegol at yr uchod rydym wedi cynhyrchu 'pecyn gwybodaeth' i blant a phobl ifanc. Efallai y bydd o gymorth i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r ffurflenni canlynol i dweud wrthyn ni os oes gennych gyfaill achos:

- Apeliadau AAA: ffurflen Dweud wrthyn ni os oes gennych cyfaill achos (SEN CYP 2)
- Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd: ffurflen Dweud wrthyn ni os oes gennych cyfaill achos (DIS CYP 2)

Mae modd lawr lwytho copi o holl ffurflenni tribiwnlys o'n gwefan neu gallwch gael copïau gennym ni yn TAAAC.

Beth ydy'r terfynau amser ar gyfer gwneud cais apêl neu hawliad?

Mae terfynau amser llym ar gyfer gwneud apêl neu hawliad:

- **Apeliadau AAA:** Rhaid i ni dderbyn cais apêl dim hwyrach na 2 fis o ddyddiad y llythyr gan yr Awdurdod Lleol yn dweud wrth y rhieni beth ydy eu penderfyniad. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ddweud wrth y plant hefyd yn ogystal â'u rhieni beth ydy eu penderfyniad.
- **Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd:** Rhaid i ni dderbyn y cais hawliad 6 mis o'r dyddiad y digwyddodd y digwyddiad honedig o wahaniaethu ar sail anabledd.

Lle mae modd cael rhagor o wybodaeth a chyngor?

Cynghorir rhieni a cyfeillion achos i ddarllen ein llyfrynnau canllaw:

- **Anghenion Addysgol Arbennig: Sut i apelio,**
- **Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn Ysgolion: Sut i wneud hawliad.**

Mae modd lawr lwytho copi o holl gyhoeddiadau'r tribiwnlys o'n gwefan neu gallwch gael copi gennym ni yn TAAAC.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ar ôl darllen y daflen hon a'r canllaw uchod, am rôl cyfaill achos neu'r broses apel neu hawliad mae croeso i chi gysylltu â ni:

Llinell gymorth TAAAC: 0300 025 9800

E-bost TAAAC: tribunalenquiries@cymru.gsi.gov.uk

Declaration of Suitability Check List

Tystiolaeth o addasrwydd i weithredu fel cyfaill achos.

Os ydych yn penderfynu bod yn gyfaill achos defnyddiwch y rhestr wirio hon i'ch helpu i lenwi eich ffurflen datganiad a sicrhau eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i ni:

Ym mhob achos rhaid i chi anfon:

- Ffurflen **datganiad o addasrwydd cyfaill achos (SENTW 26)**
- Os nad ydych yn rhiant, barn rhiant y plentyn yn ymwneud â'ch dymuniad i weithredu fel cyfaill achos y plentyn NEU
- Esboniad pam nad ydych eto wedi sefydlu barn rhiant y plentyn.
- Os nad ydych yn berthynas agos i'r plentyn, tystysgrif datgeliad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cadarnhau eich addasrwydd i weithio gyda phlant.
- Os ydych yn berthynas agos gallwch amgau unrhyw dystiolaeth yr ydych yn credu sydd yn cefnogi eich addasrwydd i weithredu fel cyfaill achos.

Rhaid i chi anfon copi o'r ffurflen datganiad addasrwydd wedi'i llenwi a'i llofnodi at:

- Rhiant y plentyn os nad chi ydy rhiant y plentyn.

Nodiadau:

Nodiadau:
